



Adran Gwaith
a Phensiynau

Pwy all wneud cais am Gredyd Cynhwysol

**Hawdd i'w
Ddarllen**



Cynnwys

1

UC *Credyd
Cynhwysol*

Cyflwyniad

Tudalen 4


2



**Pwy all wneud cais am
Gredyd Cynhwysol**

Tudalen 6

3



**Os ydych yn 16 neu
17 oed**

Tudalen 8

4



Os oes gennych blant

Tudalen 11

Cynnwys

5



**Os ydych yn byw
gyda'ch partner**

Tudalen 12


6



**Os ydych yn hyfforddi
neu'n astudio'n
llawn amser**

Tudalen 14


7



**Os oes gennych bartner
ac mae un ohonoch
yn oedran Pensiwn y
Wladwriaeth**

Tudalen 17

8



Cysylltwch â ni

Tudalen 19

1

Cyflwyniad



Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal
o'r Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae'n helpu i dalu'ch costau byw
bob dydd.

UC Credyd
Cynhwysol



Efallai y gallwch gael Credyd
Cynhwysol os:

- Ni allwch weithio
- Rydych chi allan o waith
- Rydych chi mewn gwaith ac mae gennych enillion isel.



Bydd y mwyafrif o geisiadau budd-dal newydd ar gyfer Credyd Cynhwysol.



Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i **weld a allwch wneud** cais am Gredyd Cynhwysol.

Ble rydych yn byw



I gael Credyd Cynhwysol, mae'n rhaid i chi fyw yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru.

I gael mwy o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol a ble rydych yn byw, ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol

2

Pwy all wneud cais am Gredyd Cynhwysol

18+



Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn i wneud cais am Gredyd Cynhwysol.

66+



Ni allwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol os ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a menywod yw 66 oed.

£16,000
neu lai



Gallwch hefyd wneud cais am Gredyd Cynhwysol os oes gennych chi a'ch partner gynilion o £16,000 neu lai, gyda'ch gilydd.

Budd-daliadau eraill efallai y gallwch eu cael



Adran Gwaith
a Phensiynau

Os ydych wedi gweithio yn ystod y 2 i 3 blynedd diwethaf, efallai y byddwch hefyd yn gallu cael budd-daliadau eraill.

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

Os nad ydych yn gweithio mwyach efallai y gallwch gael Lwfans Ceisio Gwaith Dull Newydd.



Adran Gwaith
a Phensiynau

Os na allwch weithio oherwydd salwch neu anabledd efallai y gallwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd.

3

Os ydych yn 16 neu 17 oed

Efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol pan fyddwch yn 16 oed neu'n 17 oed os:



Nid oes gennych **gymorth rhieni** ac nad ydych o dan ofal awdurdod lleol.



Esboniad am gymorth rhieni

Os nad oes gennych **gymorth rhieni**, mae hyn yn golygu:

- Nad ydych yn byw gyda'ch rhieni, ac
- Efallai na chewch unrhyw arian gan eich rhieni
- Efallai na fyddwch mewn cysylltiad â'ch rhieni.



Chi yw gofalwr unigolyn sydd ag anabledd difrifol.



Chi yw prif ofalwr plentyn.

UC Credyd
Cynhwysol




Mae gennych blentyn gyda phartner sy'n gallu cael Credyd Cynhwysol.



Rydych naill ai:

- Yn feichiog a byddwch yn cael eich babi mewn 11 wythnos neu lai
- Wedi cael eich babi yn ystod y 15 wythnos ddiwethaf.



Mae gennych **allu cyfyngedig** i weithio.

Mae hyn yn golygu bod eich gallu i weithio wedi'i gyfyngu gan eich iechyd.



Rydych yn aros am **Asesiad Gallu i Weithio** ac mae gennych dystiolaeth feddygol.

?

Esboniad am Asesiad Gallu i Weithio


Asesiad Gallu i Weithio yw sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwirio a ydych yn gallu gweithio.

Byddwn yn anfon ffurflen atoch gyda chwestiynau y mae'n rhaid i chi eu hateb. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddod i gyfarfod â ni ar ôl hyn.

I gael mwy o wybodaeth am Asesiadau Gallu i Weithio, ewch i www.gov.uk/cyflyrau-iechyd-anabledd-credyd-cynhwysol/rhoi-gwybod-am-eich-cyflwr-iechyd-neu-anabledd

4

Os oes gennych blant



Efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol os oes gennych blant.



Ni fydd nifer y plant sydd gennych yn **effeithio** os gallwch neu na allwch gael Credyd Cynhwysol.



Gall nifer y plant sydd gennych **effeithio** ar faint o arian a gewch.

5

Os ydych yn byw gyda'ch partner



Efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol os ydych yn byw gyda'ch partner.



Os byddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, bydd angen i'ch partner gwneud cais gyda chi.



Gall incwm a chynilion eich partner **newid** faint o arian a gewch.



Bydd hyn yn digwydd hyd yn oed os gall neu na all eich partner gael Credyd Cynhwysol.

6

Os ydych yn hyfforddi neu'n astudio'n llawn amser

Efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol wrth hyfforddi neu astudio llawn amser os ydych:

**18-21
oed**



- Rhwng 18 oed a 21 oed



- Heb **gymorth rhieni** ac nad ydych o dan ofal awdurdod lleol



- Yn astudio cwrs mewn addysg bellach.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/further-education-courses

Rhesymau eraill efallai y gallwch gael Credyd Cynhwysol wrth hyfforddi neu astudio llawn amser

UC *Credyd
Cynhwysol*



Rydych yn byw gyda phartner sy'n gallu cael Credyd Cynhwysol.



Chi yw prif ofalwr plentyn.

UC *Credyd
Cynhwysol*



Mae gennych blentyn gyda phartner sy'n gallu cael Credyd Cynhwysol.



Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae gennych anabledd ac rydych yn cael (neu allech gael) budd-daliadau eraill, fel:

- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol.

I gael mwy o wybodaeth am Daliad Annibyniaeth Personol, ewch i www.gov.uk/cymraeg


Chwiliwch am '**Easy Read PIP**'.




Rhaid i chi gael un o'r budd-daliadau hyn a chadarnhau eisoes bod gennych allu cyfyngedig i weithio.

7

Os oes gennych bartner ac mae un ohonoch yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth



Efallai y gallwch chi a'ch partner wneud cais am Gredyd Cynhwysol fel cwpl.



Rhaid i un ohonoch fod yn 65 oed neu'n iau a gallu cael Credyd Cynhwysol.

UC Credyd Cynhwysol



Gallwch gael Credyd Cynhwysol nes bod y ddau ohonoch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.



Os na allwch gael Credyd Cynhwysol, gallwch ddefnyddio cyfrifiannell budd-daliadau i weld pa gymorth arall y gallwch ei gael o bosibl.

I gael mwy o wybodaeth am gyfrifiannellau budd-daliadau, ewch i www.gov.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau

8

Cysylltwch â ni



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cysylltu â Chredyd Cynhwysol gan ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein.



Efallai bod gennych chi anabledd sy'n golygu na allwch ddefnyddio cyfrifiadur.




Os oes angen help arnoch ac na allwch gael mynediad i'n gwasanaeth ar-lein, cysylltwch â'r **llinell gymorth Credyd Cynhwysol**.



Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd
Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.



Ffôn: 0800 328 1744



Ffôn Saesneg: 0800 328 5644



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio
Iaith Arwyddion Prydain efallai y
gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth
Video Relay.



Os na allwch glywed na siarad ar y
ffôn gallwch ddefnyddio Relay UK:
18001 yna 0800 328 5644

I gael mwy o wybodaeth am bwy i gysylltu â nhw, ewch i
www.gov.uk/credyd-cynhwysol/cysylltu-credyd-cynhwysol

I gael mwy o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol ewch i
www.gov.uk/credyd-cynhwysol

Am fwy o wybodaeth hawdd i'w ddarllen am Gredyd Cynhwysol, ewch i
www.gov.uk/cymraeg

Chwiliwch am **'Easy Read Universal Credit'**.